Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Dyfed-Powys**

**Adroddiad Craffu Dwys**

**i**

# Ddefnydd o Rym

**Heddlu Dyfed-Powys**

**Medi 2018**

# Cynnwys

1.0 Crynodeb Gweithredol ....... 2
2.0 Canlyniad ....... 4
3.0 Sefyllfa ....... 5
3.1 Cefndir ....... 5
3.1.1 Deg Egwyddor Allweddol sy'n Llywodraethu Defnydd o Rym gan y Gwasanaeth Heddlu ....... 6
3.1.2 Gofynion cofnodi ....... 7
3.1.3 Llywodraethu a Pholisïau'r Heddlu ....... 8
3.1.4 Argymhellion HMICFRS ....... 9
3.2 Perfformiad Cyfredol ....... 11
3.2.1 Materion Perfformiad ....... 11
3.2.2 Ymosodiadau ac anafiadau i swyddogion a staff ....... 18
3.2.3 Trefniadau archwilio ac adolygu ....... 19
3.2.4 Fideo Camera Corff (BWV) ....... 20
3.2.5 Ystyriaethau moesegol a chwynion ....... 22
3.2.6 Ymrwymiadau Ariannol ....... 23
3.2.7 Gwybodaeth a hyder y gweithlu ....... 23
3.2.8 Hyfforddiant ....... 24
4.0 Canlyniadau ....... 25
5.0 Gweithredoedd ....... 27
6.0 Adolygu ....... 29
6.1 Nodau ....... 29
6.2 Casgliad ....... 29
Atodiad A – Amserlen Craffu Dwys ....... 1
Adroddiad B – Enghraifft o e-Ffurflen Defnydd o Rym ....... 3
Atodiad C – Safonau Proffesiynol – Canlyniadau Honiad o Gŵyn ....... 8

# 1.0 Crynodeb Gweithredol

Oherwydd diddordeb cyhoeddus sylweddol a gofyniad cyffredinol i wella defnydd o rym yr heddlu, ymgymerodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (OPCC) adolygiad 'craffu dwys' o'r defnydd o rym o fewn ardal Dyfed-Powys. Canfu:

- Bod defnydd o rym yn cael ei dan adrodd gan swyddogion;
- Bod alcohol, cyffuriau ac iechyd meddwl yn cael eu cofnodi fel y ffactorau effaith mwyaf cyffredin[1];
- Mai sgiliau heb ddefnyddio arfau, defnyddio gefynnau llaw ac atalfeydd llawr yw mwyafrif y tactegau sy'n achosi cwynion o rym gormodol;
- Bod adborth y cyhoedd yn gadarnhaol yn bennaf mewn perthynas â defnydd o rym yr heddlu;
- Bod Panel Sicrwydd Ansawdd y Comisiynydd (cynrychiolwyr annibynnol o blith preswylwyr ardal Dyfed-Powys) yn cefnogi adborth cadarnhaol y cyhoedd wrth ddod i'r casgliad bod swyddogion yn delio gyda digwyddiadau yn gymesur ac yn rhesymol.

Serch hynny canfu'r adolygiad rai diffygion wrth gasglu, coladu a dadansoddi data yn gywir ar sut y mae swyddogion Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio grym. Gan hynny mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn argymell bod yr Heddlu:

Ar unwaith yn:

1. Cyflwyno Cyfeirnodau Unigryw ar gyfer ffurflenni defnydd o rym fel mater brys.
2. Rhaid defnyddio Cyfeirnodau Unigryw i sicrhau bod Ffilm Camera Corff yn cael ei dagio yn briodol a bod modd cael gafael arni yn rhwydd.
3. Cyfathrebu gofynion recordio clir a chyson wrth swyddogion a staff, gan gynnwys pwysigrwydd Ffilm Camera Corff a chyfiawnhad dros y grym a ddefnyddir.
4. Adolygu ac ymgynghori gyda swyddogion ar y pecyn hyfforddi defnydd o rym cyfredol i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu realiti hyd y gellir ac yn cynnwys sylw digonol i'r gofynion adrodd.

Cyn gynted â phosibl:

5. Sefydlu trefniadau archwilio a goruchwylio i asesu dealltwriaeth a chydymffurfiad dilynol gyda gofynion cofnodi defnydd o rym.

[1] Materion sy'n effeithio ar ymddygiad unigolyn a chan hynny asesiad y swyddogion o'r angen i ddefnyddio grym.

6. Adolygu ffurflenni defnydd o rym cyfredol gyda'r bwriad o awto-lenwi meysydd, gostwng swm y data sy'n ofynnol ac ystyried sut y mae rhesymeg swyddogion yn cael ei chofnodi.
7. Gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i addysgu'r cyhoedd o ddefnydd o rym angenrheidiol, rhesymol a chymesur swyddogion heddlu a'u hawliau yn ymwneud â'u defnydd o bŵer.
8. Sicrhau bod swyddogion yn cwblhau proffil unigol y rheini sy'n amodol ar rym yn rheolaidd er mwyn galluogi monitro priodol ar ddefnydd anghymesur posibl ar wahanol grwpiau demograffig.

Yn y dyfodol:

9. Ystyried 'cronfa' o gamerâu Ffilm Camera Corff i'r rheini heb ddyraniad personol i'w defnyddio pan fydd angen gweithredol.
10. Gwella'r ffordd y mae'r Heddlu yn cofnodi anafiadau swyddogion sy'n gysylltiedig â defnydd o rym. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod swyddogion wedi'u cyfarparu'n briodol a'u hamddiffyn rhag cael niwed wrth gynnal eu dyletswyddau.
11. Parhau i weithio gyda gwasanaethau iechyd lleol i ddatblygu cynlluniau wedi'u teilwra ar gyfer rheolaeth briodol (gan gynnwys ffurfiau mwyaf diogel, mwyaf effeithiol a phriodol o rym a argymhellir) ar droseddwyr drachefn, yn enwedig y rheini gyda nodweddion gwarchodedig.
12. Gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd a Throseddu i wella cynnwys y cyhoedd wrth graffu cyswllt swyddogion heddlu gyda'r cyhoedd.
13. Blaenoriaethu penderfyniad ar system rheoli cofnodion yn y dyfodol, gan sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i wella'r gallu i ryngweithredu a gwella awto-lenwi rhai meysydd, gan hynny yn gostwng cyfaint y gofynion adrodd ar wahân a osodir ar swyddogion.
14. Adolygu pryderon adrannau arbenigol i sicrhau bod swyddogion wedi'u cyfarparu yn briodol i gynnal eu dyletswyddau'n effeithiol.

# 2.0 Canlyniad

Cyfranna'r adolygiad hwn at yr agweddau a ganlyn o Gynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd[2]:

- Gwneud defnydd gorau ar adnoddau rheng flaen i ymroi i fynd i'r afael a delio â throsedd a digwyddiadau (Blaenoriaeth 1: Cadw ein cymunedau yn ddiogel)
- Eirioli ymateb rhesymol a chymesur gan swyddogion rheng flaen wrth ddelio â phobl sy'n profi salwch meddwl. (Blaenoriaeth 2: Diogelu'r bregus)

Ceisiodd yr adolygiad i:

1. Geisio sicrwydd bod Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio eu pwerau grym yn briodol;
2. Gwella hyder y cyhoedd yn Heddlu Dyfed-Powys; a
3. Gwella perfformiad yn y maes hwn (Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu).

Trwy:

a) Adnabod unrhyw dueddiadau o ran defnydd o rym gan swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys;
b) Tynnu sylw at feysydd arfer da a meysydd gwelliant;
c) Darparu goruchwyliaeth annibynnol i ddefnydd o rym yr heddlu;
d) Ceisio sicrwydd bod swyddogion yn cofnodi'r holl ddigwyddiadau o ddefnydd o rym yn briodol; a
e) Hysbysu'r cyhoedd am eu hawliau o ran defnydd o rym gan swyddogion heddlu.

Er mwyn hysbysu'r adolygiad hwn, cynhaliodd gynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu amrywiaeth o ymchwil, gan gynnwys:

- Ymgynghori ag aelodau'r cyhoedd trwy arolwg ar-lein a phresenoldeb yn sioeau haf;
- Grwpiau ffocws gyda swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys i ddeall eu canfyddiadau o'r mater;
- Adolygu data ac adborth gan adrannau a gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â defnydd o rym gan swyddogion, gan gynnwys lles swyddogion a chwynion gan y cyhoedd;
- Adolygiad annibynnol o ddigwyddiadau lle'r oedd swyddogion wedi defnyddio eu pwerau grym, trwy Banel QA y Comisiynydd.

[2] http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/the-commissioner/the-police-and-crime-plan/

Mae amserlen lawn y gwaith a gynhaliwyd i hysbysu'r digwyddiad hwn i'w weld yn atodiad A.

# 3.0 Sefyllfa

## 3.1 Cefndir

Mae nifer o ffactorau wedi dylanwadu ar yr adolygiad hwn, sef:

- Y gyfarwyddeb a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r holl heddluoedd gyhoeddi data tryloywder am ddefnydd o rym eu swyddogion yn chwarterol o fis Ebrill 2017.
- Diddordeb cyhoeddus sylweddol / sylw yn y cyfryngau a her gyhoeddus am ddefnydd o rym yr heddlu, gan gynnwys cyflwyno Taser, Giardiau Poeri a Brathu a Ffilm Camera Corff (BWV).
- Cynnydd yn yr adroddiadau o anfodlonrwydd a gofnodir gan y Swyddfa Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n honni bod swyddogion wedi defnyddio grym gormodol neu garcharorion yn profi anafiadau wrth gael eu harestio.
- Digwyddiadau o anafiadau sy'n deillio o ddefnydd o rym lle nad oedd Ffilm Camera Corff wedi'i hactifadu.
- Cyfryngau cenedlaethol yn adrodd ar ddefnydd o rym anghymesur yn erbyn lleiafrifoedd ethnig a phobl dduon.
- Dim craffu allanol cyfredol o'r defnydd o rym, neu sicrwydd ei fod yn cael ei gofnodi yn effeithiol.

Mae'r gyfraith yn cydnabod bod swyddogion yr heddlu yn mynychu sefyllfaoedd lle y gallai fod gofyn iddynt ddefnyddio grym er mwyn cadw'r heddwch a chynnal y gyfraith. Mae swyddogion unigol yn gyfrifol am benderfynu pryd ac ar ba ffurf o rym i'w ddefnyddio. Maen nhw eu hunain yn atebol i'r gyfraith wrth sicrhau bod eu penderfyniad yn arwain at ddefnyddio'r lefel isaf o rym sy'n ofynnol i ymgymryd â'u dyletswyddau.

Mae Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP)[3] y Coleg Plismona yn datgan:

> *"Mae'r Ddeddf Cyfraith Trosedd 1967, Deddf Tystiolaeth Droseddol a'r Heddlu 1984 a chyfraith gyffredinol yn gymwys i bob defnydd ar rym gan yr heddlu ac yn nodi y dylai unrhyw ddefnydd ar rym fod yn 'rhesymol' o dan yr amgylchiadau. Mae rhesymol o dan yr amgylchiadau hyn yn golygu:*
>
> - *yn gwbl angenrheidiol at ddiben a ganiateir gan y gyfraith; a*
> - *Rhaid i swm y grym a ddefnyddir fod yn rhesymol ac yn gymesur hefyd (h.y., rhaid i raddau'r grym a ddefnyddir fod yr isafswm gofynnol o dan*

[3] https://www.app.college.police.uk/

*yr amgylchiadau i gyflawni'r amcan cyfreithiol) fel arall mae'n debyg y bydd defnydd o rym yn ormodol ac yn anghyfreithlon."*

### 3.1.1 Deg Egwyddor Allweddol sy'n Llywodraethu Defnydd o Rym gan y Gwasanaeth Heddlu

(O Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona)

1. Mae dyletswydd gyffredinol ar swyddogion heddlu i ddiogelu unigolion ac eiddo, i gadw trefn, ac i atal comisiynu troseddau a, lle mae trosedd wedi'i chyflawni, i gymryd mesurau i ddod â'r troseddwr i gyfiawnder;

2. Gallai swyddogion heddlu, yn gyson â'r ddyletswydd hon, ddefnyddio grym wrth ymgymryd â phwerau statudol penodol, i atal trosedd neu wrth achosi arést cyfreithlon. Gallant wneud hynny hefyd i amddiffyn eu hunain neu i amddiffyn eraill, er mwyn stopio neu atal torri'r heddwch sydd ar fin digwydd, ac i amddiffyn eiddo;

3. Bydd swyddogion heddlu, hyd y gellir, yn defnyddio dulliau anhreisgar cyn mynd ati i ddefnyddio unrhyw rym. Dylent ddefnyddio grym dim ond os yw dulliau eraill wedi profi'n aneffeithiol, neu os pennir yn onest ac yn rhesymol nad oes unrhyw ragolwg realistig o gyflawni'r amcan cyfreithiol a nodir heb rym;

4. Pan fydd grym yn cael ei ddefnyddio bydd yn cael ei ddefnyddio gyda rheolaeth. Defnyddir yr isafswm a bennir yn onest ac yn rhesymol i fod yn angenrheidiol i gyflawni'r amcan cyfreithlon;

5. Ni ddylid defnyddio grym angheuol neu sydd â'r potensial i fod yn angheuol dim ond pan fydd yn gwbl angenrheidiol er mwyn amddiffyn eich hun, neu i amddiffyn eraill yn erbyn bygythiad o farwolaeth neu anaf difrifol;

6. Rhaid i unrhyw benderfyniad yn ymwneud â defnydd o rym a allai effeithio ar blant, neu unigolion bregus eraill, ystyried goblygiadau statws o'r fath gan gynnwys, yn enwedig, effaith gynyddol bosibl y grym arnynt;

7. Dylai swyddogion heddlu gynllunio a rheoli gweithrediadau i isafu, i'r graddau helaethaf posibl, atebolrwydd i rym angheuol, ac i ddarparu ar gyfer mabwysiadu ymdriniaeth gyson i ddefnydd o rym gan bob swyddog. Bydd cynllunio a rheoli o'r fath yn cynnwys rhoi ystod ddigonol o gyfarpar nad ydynt yn angheuol i swyddogion ac argaeledd arbenigedd meddygol digonol i ymateb i niwed a achosir trwy ddefnydd o rym;

8. Mae swyddogion unigol yn atebol ac yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd o rym, a rhaid gallu cyfiawnhau eu camau yn gyfreithlon;

9. Er mwyn hyrwyddo atebolrwydd ac arfer gorau bydd yr holl benderfyniadau yn ymwneud â defnydd o rym, a dylai pob enghraifft o ddefnydd o rym, gael eu hadrodd a'u cofnodi naill ai yn gyfoes, neu cyn gynted â phosibl;

10. Rhaid i benderfyniad yn ymwneud â defnydd o rym gan swyddogion heddlu ystyried y ddyletswydd gofal sy'n ddyledus gan y gwasanaeth heddlu perthnasol i bob swyddog heddlu unigol wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau. Gall lleoli swyddogion heddlu yng nghyd-destun trefn gyhoeddus lle gallai grym gael ei ddefnyddio arwain at risgiau difrifol i'w diogelwch eu hunain, ac felly rhaid iddo fod yn amodol ar reolaeth drwyadl am y rheswm hwnnw hefyd.

***Ffynhonnell: Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (2011) The rules of engagement: A review of the August 2011 disorders, © Hawlfraint y Goron.***

### 3.1.2 Gofynion cofnodi

Yn dilyn Adolygiad Data Defnydd o Rym Cenedlaethol yn 2015[4] ac Adolygiad Shaw[5] yn 2016, mae gofyn i'r holl heddluoedd gofnodi a chyhoeddi eu data defnydd o rym yn chwarterol o fis Ebrill 2017. Amlinellir y gofynion cofnodi o fewn Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona:

> *"Dylai heddluoedd goladu data defnydd o rym yn electronig (mae'r Swyddfa Gartref yn ystyried dulliau ar gyfer ffurflenni data blynyddol o ran hyn). Disgwylir i heddluoedd gofnodi pob enghraifft o ddefnydd o rym yn electronig ac mewn modd sy'n caniatáu i adalw a dadansoddi'r wybodaeth hon yn rhwydd. Yn benodol, dylai'r data hwn ganiatáu ar gyfer dadansoddi yn ôl oed, ethnigrwydd a throsedd a dylai ffurfio rhan o gofnod dalfa neu gyfeirio'n benodol ato."*

Yn wahanol i Stopio a Chwilio, lle mae un ffurflen yn cael ei llenwi ar gyfer chwilio un unigolyn unwaith, mae enghreifftiau o ddefnydd o rym yn gofyn bod yn rhaid i'r holl swyddogion sy'n defnyddio grym ar unigolyn lenwi ffurflen electronig ar gyfer pob digwyddiad, h.y. os oes tri swyddog yn defnyddio grym ar unigolyn yn ystod digwyddiad, byddai'n rhaid i bob un gyflwyno ffurflen, gan arwain at dri chyflwyniad ar gyfer yr un digwyddiad. Rhaid i unrhyw ddefnydd o rym wrth arestio ac yn y ddalfa gael ei ddogfennu ar gofnod carcharu'r unigolyn

[4] Prosiect Adolygu Data Defnydd o Rym Cenedlaethol, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion, Hydref 2015 http://www.npcc.police.uk/documents/reports/2016/Use%20of%20Force%20Data%20Report.pdf

[5] Review into the Welfare in Detention of Vulnerable Persons: A report to the Home Office gan Stephen Shaw, Ionawr 2016 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/490782/52532_Shaw_Review_Accessible.pdf

ynghyd ag ar e-ffurflen defnydd o rym (mae enghraifft ohoni i'w gweld yn atodiad 2). Mae'r e-ffurflen yn cynnwys blychau ticio a dim ond os oes Taser wedi'i ddefnyddio y mae'n caniatáu testun rhydd i swyddogion gyfiawnhau eu gweithredoedd, serch hynny, amlinella arweiniad bod yn rhaid i swyddogion nodi eu rhesymeg o fewn eu llyfrau poced, datganiadau (os yw'n berthnasol) a chofnodion y ddalfa.

Mae gofyn cyfreithlon ar heddluoedd Cymru a Lloegr i gasglu data yn ymwneud â defnydd o rym gan eu swyddogion. Dylid ei gyhoeddi yn chwarterol[6] o leiaf a rhaid ei adrodd o fewn y Ffurflen Ddata Flynyddol (ADR)[7] i'r Swyddfa Gartref. Amlinella arweiniad o Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion (NPCC) lefel y manylion sy'n ofynnol wrth gasglu data ac mae'n rhoi templed lleol ar gyfer cyhoeddi.

### 3.1.3 Llywodraethu a Pholisïau'r Heddlu

Monitrir defnydd o rym swyddogion Heddlu Dyfed-Powys gan y Grŵp Llywodraethu Defnydd o Rym, wedi'i arwain gan Uwch-arolygydd dros Ymgyrchoedd Arbenigol. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am oruchwylio, cefnogi a gwella defnydd a chraffu ar bwerau cymhellol / stopio a chwilio; gan dynnu sylw at feysydd arfer da, adnabod a chymryd camau lle y mae angen gwelliannau a llunio a chyfathrebu newidiadau angenrheidiol i bolisïau perthnasol.

Mae modiwl 'Llawlyfr Diogelwch Personol ar Ddefnydd o Rym Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu' (NPCC bellach) yn arwain swyddogion ar ddefnydd o rym cymesur, rhesymol ac y gellir ei gyfiawnhau.

Amlinella bolisi Ffilm Camera Corff Heddlu Dyfed-Powys[8] bolisi sy'n amlinellu'r rhesymeg dros sut y dylai Ffilm Camera Corff gael ei defnyddio pan fydd swyddogion yn defnyddio eu pwerau grym, gan ddilyn yr egwyddorion a amlinellir yn Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona.

Giardiau Poeri a Brathu Un Defnydd yw'r ffurf ddiweddaraf o rym sydd ar gael i swyddogion ac maen nhw'n ddeunydd rhwyll, sy'n gallu anadlu sy'n gorchuddio'r wyneb a'r pen er mwyn gostwng anafiadau a lledaenu clefydon trosglwyddadwy i swyddogion a gwrthrychau. Dim ond swyddogion rheng flaen a staff dalfa sydd mewn cyswllt rheolaidd â'r cyhoedd ac sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Diogelwch Personol yn llwyddiannus sy'n cael derbyn Giardiau Poeri a Brathu.

[6] Mae data defnydd o rym Dyfed-Powys i'w weld yma: https://www.dyfed-powys.police.uk/en/accessing-information/lists-and-registers/use-of-force/
[7] ADR yw'r set data y mae gofyn cyfreithiol ar gwnstabliaethau Swyddfa'r Gartref eu cyflenwi gan bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud cais amdano trwy Ddeddf yr Heddlu 1996.
[8] Ymwelwyd â Fersiwn 7.0 o Fewnrwyd Heddlu Dyfed-Powys ar 01/08/18

Cyhoeddodd Heddlu Dyfed-Powys Drefniadau Gweithredu Safonol ar gyfer dyrannu Giardiau Poeri a Brathu ym mis Mai 2018.

Er bod gan swyddogion ymreolaeth i benderfynu pryd i ddefnyddio grym, yn enwedig os oes bygythiad di-oed i fywyd neu sefyllfa risg uchel, mae defnydd ar arfau tanio a Taser yn gofyn am awdurdod trwy Reolwr Digwyddiad yr Heddlu (Arolygydd neu uwch). Os daw sefyllfa yn faith neu yn dwysau, mae'r penderfyniad yn symud at y Comander Arfau Tanio Tactegol (Prif Arolygydd) a'i gadarnhau gan Gomander Aur yr Heddlu (Uwch-arolygydd ac uwch).

### 3.1.4 Argymhellion HMICFRS

Dywedodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) o fewn ei hadroddiad PEEL: Cyfreithlondeb yr Heddlu 2017 (gan gynnwys arweinyddiaeth)[9]:

> *"Mae Heddlu Dyfed-Powys angen cyfoethogi craffu mewnol i wella ei thriniaeth o'r cyhoedd."*

Cyfeiriodd yr adroddiad hwn hefyd at ei harolygiad dalfa diweddar le canfuwyd nad oedd grym a ddefnyddiwyd yn y ddalfa bob amser yn cael ei ddefnyddio fel y dewis olaf, nac yn cael ei gofnodi'n effeithiol. Argymhellodd arolygiad canlyniadol y ddalfa y dylai'r Heddlu gryfhau ei hymdriniaeth tuag at ddefnydd o rym trwy sicrhau cofnodi cywir a monitro cadarn.

Yn ystod y chwe mis hyd at 30 Mehefin 2018, cofnododd swyddogion bod 11.6% o'r holl rym yn cael ei ddefnyddio ym mlociau dalfa (236 cofnod). Yn ystod yr un cyfnod, cafodd 3,038 o garcharorion eu dal yn y ddalfa. Yn ystod y cyfnod Ebrill 2017 i Fehefin 2018, cafodd 8 cwyn ffurfiol o ddefnydd gormodol o rym eu cofnodi. Nid yw un wedi'i gwblhau hyd yma, serch hynny cafodd y 7 sy'n weddill eu terfynu (1), eu tynnu yn ôl (1), neu ni chawsant eu cynnal (5).

Rhaid nodi na ddylid dibynnu ar gymharu cyflwyniadau defnydd o rym gyda data arall fel cyfrifiad union o gydymffurfiad â'r lefel gofnodi oherwydd y ffordd y mae'r grym yn cael ei adrodd (h.y. un ffurflen fesul swyddog, a allai dynnu sylw at fathau lluosog o rym a ddefnyddiwyd ar yr un unigolyn mewn mwy nac un lleoliad). Serch hynny, gwneir rhagdybiaeth (o'r ddealltwriaeth y bydd mwyafrif yr arestiadau yn gofyn am ryw ddefnydd o rym e.e. rhoi'r achwynydd mewn gefynnau llaw, ac ni fydd peth grym yn arwain at arést) bod y data mewnbwn arestiadau a dalfa yn rhoi arwydd o gyfaint gofynnol y cofnodion defnydd o rym y byddai rhywun yn disgwyl ei weld.

[9] https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/peel-police-legitimacy-2017-dyfed-powys.pdf

Gofynnwyd i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa(ICVs)[10] y Comisiynydd i adolygu defnydd o rym a ddefnyddir ac a gofnodir ar garcharorion y gwnaethant ymweld â hwy. Yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn, o blith yr 17 o garcharorion yr ymweld â hwy[11], canfu Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa:

| Math o Rym | Enghreifftiau* |
|---|---|
| **Dim wedi'i Adrodd** | 11 |
| **Grym wedi'i adrodd ond heb ei gofnodi** | 3 |
| **Gefynnau Llaw** | 4 |
| **Atalfa** | 1 |
| **Gweithdrefn y Gell**** | 1 |

**Mae cyfanswm nifer yr enghreifftiau yn rhagori ar nifer y carcharorion gan y gallai mwy nac un math o rym gael ei ddefnyddio ar un carcharor.*

***Dull a ddefnyddir gan dîm o swyddogion i leoli carcharor treisgar yn ddiogel yn ei gell, gan ganiatáu iddo/iddi dynnu yn ôl heb ddioddef anaf personol.*

Ar gyfer y tair enghraifft lle cafodd grym ei adrodd ond heb ei gofnodi, datganodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fod un digwyddiad wedi'i adrodd ar lafar wrth Ringyll y Ddalfa; nid oedd un wedi'i gofnodi ar flaen dalen y swyddog arestio ond roedd wedi'i gofnodi ar yr asesiad risg; ac un adroddiad o rym yn cael ei ddefnyddio wrth arestio ond nid oedd tystiolaeth wedi'i gofnodi o hyn. Mae'r anghysondeb hwn yn digwydd gyda chanfyddiadau'r gweithlu – datganodd swyddogion bod staff dalfa yn dda am atgoffa swyddogion i lenwi eu ffurflenni defnydd o rym; serch hynny cafwyd dryswch ymddangosiadol a rhwystredigaeth yn ymwneud â chofnodi'r grym a ddefnyddiwyd yn y ddalfa. Datganodd un swyddog dalfa eu bod wedi'u hyfforddi i gofnodi pob profiad o gyffwrdd â phob carcharor, ond teimlwyd bod hynny'n anymarferol, yn enwedig pan oedd gofyn deffro carcharor ar gyfer gwiriadau lles rheolaidd e.e. bob 30 munud.

Codwyd pryderon nad oedd y gofynion wedi'u dosbarthu'n briodol gan na chafodd pob defnydd o rym yn y ddalfa ei gofnodi gan bawb dan sylw. Awgrymwyd y dylai rhywbeth gael ei adeiladu i'r system ddalfa i sbarduno neges

[10] Gwirfoddolwyr sy'n ymweld ag ardaloedd dalfa'r heddlu heb rybudd i wirio lles carcharorion ac i sicrhau bod eu hawliau yn cael eu cefnogi.
[11] Rhwng 30/07/18 a 07/09/18.

i atgoffa swyddogion i gofnodi eu cyswllt, swyddogaeth a oedd ar waith o'r blaen mae'n debyg ond sydd wedi'i dynnu yn ystod diweddaru system[12].

## 3.2 Perfformiad Cyfredol

Fel yr amlinellir yn yr adran gofynion cofnodi, mae gofyn i bob swyddog gyflwyno ffurflen ar gyfer pob cysylltiad sy'n defnyddio grym, gan hynny nid yw'r data sy'n cael ei goladu gan yr Heddlu yn cynrychioli nifer y digwyddiadau neu nifer yr unigolion sy'n amodol ar rym, ond mae'n adlewyrchu nifer y ffurflenni a gyflwynir gan swyddogion.

### 3.2.1 Materion Perfformiad

Derbynnir yn eang ar draws staff a swyddogion Heddlu Dyfed-Powys bod defnydd o rym yn cael ei dan-adrodd. Ymddengys bod anghysondeb gweithredol yn y ddealltwriaeth o'r hyn y mae defnydd o rym i'w adrodd yn golygu; a chan hynny barnau gwahanol ar bryd y mae angen ffurflen defnydd o rym; yn enwedig o ran rhoi gefynnau llaw yn ufudd.

Mae arwyddion o gydymffurfiad gwell wrth gofnodi defnydd o rym, gyda nifer y ffurflenni defnydd o rym a gyflwynir yn codi o 152 ym mis Ionawr 2018 i 399 ym mis Mehefin 2018. Mae gwelliannau diweddar yn hygyrchedd ffurflenni defnydd o rym wedi galluogi i swyddogion lenwi a chyflwyno o'u Terfynellau Data Symudol (MDTs) yn hytrach na gorfod dychwelyd i'r orsaf i'w llenwi ar gyfrifiadur. Gallai hyn, ar y cyd ag ymdrechion parhaus i godi ymwybyddiaeth o'r gofyniad i gofnodi, fod yn dylanwadu ar y sefyllfa sy'n gwella.

Roedd swyddogion yn gyffredinol yn deall y cyfraniad yr oedd cofnodi defnydd o rym yn ei gael ar wella tryloywder ac atebolrwydd, ond roedd rhai yn anymwybodol lle'r oedd y ffurflenni yn mynd wrth eu cyflwyno, beth oedd yn digwydd iddynt a pham eu bod wedi'u cyflwyno. Roedd eraill yn deall y mandad cenedlaethol, ond yn cwestiynu'r angen i gofnodi cymaint o wahanol lefelau o rym, yn enwedig dulliau lefel isel. Tynnodd un goruchwylydd sylw at yr angen i adnabod 'ffactorau effaith' a allai ddylanwadu ar yr angen i ddefnyddio grym. Mae hyn yn elfen gadarnhaol o'r ffurflen gan eu bod wedi tystio gwelliannau wrth i swyddogion adnabod y gallai materion megis alcohol neu gyffuriau neu iechyd meddwl fod yn gysylltiedig.

Roedd hi'n amlwg o drafodaethau gyda swyddogion a staff bod llinellau cyfathrebu effeithiol rhwng adrannau, er enghraifft, pan fydd ddamwain neu ddiwygiad yn cael ei adnabod (naill ai trwy adroddiad damwain yn cael ei

[12] Ffynhonnell: 'Use of Force in [DP] Police Custody' adroddiad gan Ringyll yr Heddlu ym mis Chwefror 2017.

gyflwyno neu ddigwyddiad ar y Cofnod Cyflwr Dyddiol); bydd hyn yn cael ei adolygu gan y Tîm Iechyd a Diogelwch a'i gyfathrebu wrth yr adrannau perthnasol er gwybodaeth / ymchwiliad pellach.

Er y cafwyd cydnabyddiaeth bod y gofyniad i bob swyddog gyflwyno ffurflen ar gyfer pob digwyddiad yn briodol, gan ei fod yn caniatáu i bob unigolyn adrodd ar ei gysylltiad ei hun, mynegwyd pryder bod y data canlyniadol yn gamarweiniol gan nad yw'n adlewyrchu nifer y digwyddiadau lle defnyddiwyd grym. Awgrymodd rai swyddogion y gellir archwilio'r posibilrwydd o swyddogaeth lle gellid ychwanegu pobl luosog at gofnodion digwyddiad defnydd o rym, gan fod hyn ar gael ar hyn o bryd mewn systemau eraill. Awgrymodd eraill y dylai defnydd o rym gael ei gynnwys ar ffurflen gyfredol arall, er mwyn gostwng nifer y ffurflenni sy'n ofynnol.

Er bod y rheini y siaradwyd â hwy yn deall y dylent fod yn llenwi ffurflenni ac yn eu gweld yn syml, y farn lethol oedd eu bod yn cynrychioli baich gweinyddol ychwanegol yn ychwanegol at ofynion adrodd a chofnodi niferus eraill.

Mynegodd rai rwystredigaeth nad oedd systemau yn "siarad â'i gilydd", gan arwain at ddyblygu posibl neu osgoi defnyddio rhai technegau i ostwng y gwaith papur gofynnol. Mae absenoldeb cysylltiadau rhwng rhai systemau yn arwain at rai ardaloedd yn methu tynnu data yn rhwydd yn ymwneud â'r defnydd o rym, er enghraifft, Iechyd a Diogelwch, Iechyd Galwedigaethol, Iechyd Meddwl a Ffilm Camera Corff. Adnabu swyddogion bod y ffurflenni hefyd yn cynhyrchu gwaith ychwanegol i reolwyr a staff cymorth.

Rhaid nodi bod swyddogion wedi mynegi ar fwy nac un achlysur ehangder y gwaith gweinyddol oedd yn ofynnol wrth ddelio gyda gwahanol ddigwyddiadau, gyda llawer ohono angen ei gwblhau cyn caniatáu i swyddogion adael eu shifft. Er bod cyfnod y dyfeisiau symudol heb os wedi galluogi i swyddogion dreulio mwy o amser allan o'r orsaf, mae eu dyletswyddau gweinyddol yn parhau yn helaeth. Mae'r e-ffurflen defnydd o rym (enghraifft o fewn Atodiad B), yn enghraifft o'r gwaith gweinyddol helaeth y mae swyddogion yn eu hwynebu ar ôl ymateb i alwadau am help. Gan hynny nid yw'n syndod bod rhai gofynion yn cael eu colli, eu hanghofio neu'u hoedi.

### *3.2.1.1 Proffiliau'r gwrthrychau*

Pan fydd proffiliau unigol o'r gwrthrychau yn cael eu cwblhau, defnyddir mwyafrif y grym ar wrywod rhwng 25 a 34 oed, ac mae mwyafrif helaeth y gwrthrychau yn wyn (91.1%), serch hynny rhaid cydnabod nad yw'n ymddangos bod y proffil unigol yn cael ei gofnodi bob amser[13].

---

[13] Data wedi'i dynnu o broffil perfformiad Defnydd o Rym Heddlu Dyfed-Powys Ebr-Meh 2018.

| Ethnigrwydd | Cyflwyniadau Defnydd o Rym |
|---|---|
| **Gwyn** | 935 |
| **Asiaidd** | 2 |
| **Du** | 4 |
| **Tsieineaidd / arall** | 7 |
| **Anhysbys** | 56 |

### *3.2.1.2 Lleoliad*

Yn ystod y tri mis yn arwain at 30 Mehefin 2018, y lleoliadau mwyaf cyffredin ar gyfer defnydd o rym oedd lleoliadau cyhoeddus / preifat a blociau dalfa, fel y dangosir yn y tabl isod[14].

| **Lleoliad** | Sawl gwaith y cofnodwyd | % a gofnodwyd |
|---|---|---|
| **Lleoliad cyhoeddus / preifat** (stryd / priffordd, tir agored, annedd, trafnidiaeth gyhoeddus) | 849 | 68.3 |
| **Bloc dalfa** | 140 | 11.3 |
| **Cerbyd heddlu** (gyda neu heb gawell drin) | 110 | 8.8 |
| **Lleoliad Iechyd** (ysbyty, lleoliad iechyd meddwl, ambiwlans) | 55 | 4.4 |
| **Arall** | 39 | 3.1 |
| **Gorsaf heddlu (ac eithrio bloc dalfa)** | 22 | 1.8 |
| **Safle trwyddedig** | 21 | 1.7 |
| **Safleoedd adwerthu** | 7 | 0.6 |

[14] Data wedi'i dynnu o broffil perfformiad Defnydd o Rym Heddlu Dyfed-Powys Ebr-Meh 2018.

### *3.2.1.3 Ffactorau Effaith*

Cofnodwyd alcohol, cyffuriau ac iechyd meddwl fel y ffactorau effaith mwyaf cyffredin o fewn cyflwyniadau defnydd o rym.

> *"Yr anhawster gyda [materion Iechyd Meddwl] a defnydd o rym yw bod pob unigolyn yn unigryw; nid oes unrhyw un ymdriniaeth maint yn addas i bawb i reoli'r sefyllfaoedd hyn".*

Rhennir y farn hon gan gynrychiolydd o'r Grŵp Ymgynghori Annibynnol (IAG)[15] wrth greu achos i swyddogion fod yn ofalus, ynghyd â chael eu cyfarparu gyda gwybodaeth gefndir berthnasol ar unigolion er mwyn gwneud asesiad ar sut i ddelio gyda'r unigolyn er mwyn osgoi gwaethygu'r sefyllfa. Cydnabyddir bod yr heddlu mewn sefyllfa anodd wrth fynychu'r materion iechyd meddwl anhysbys hynny, gan nad oedd casglu'r wybodaeth hon bob amser yn syml. Mae enghreifftiau o arfer da wedi'u gweld yn ymwneud â defnydd o rym wrth i'r heddlu reoli'r cyswllt cyntaf, lle y mae cynlluniau yn cael eu creu dros amser ar gyfer troseddwyr drachefn sy'n dioddef o salwch meddwl, ar y ffordd orau o fynd atynt a'u trin. Serch hynny, nid adroddir bod hyn yn cael ei gynnal yn gyson ar draws ardal yr heddlu. Mae'r ymdriniaeth hon yn cael ei hatseinio o fewn y Bil Unedau Iechyd Meddwl (Defnydd o Rym) sy'n mynd trwy'r senedd ar hyn o bryd, ac os caiff ei basio, bydd yn rhoi mandad bod yn rhaid i unedau iechyd meddwl ddarparu hyfforddiant i'w staff sy'n cynnwys (ymhlith eraill):

- Sut i gynnwys cleifion wrth gynllunio, datblygu a chyflenwi gofal a thriniaeth yn yr uned iechyd meddwl; ac
- [Ymwybyddiaeth o] effaith unrhyw ddefnydd o rym ar iechyd a datblygiad meddyliol a chorfforol claf.

Cafodd y swm helaeth o hyfforddiant a ddarperir i swyddogion a staff yn ymwneud ag iechyd meddwl a defnydd o rym ei gydnabod gan yr Aelod Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, serch hynny teimlwyd bod angen gwneud mwy i sicrhau ei fod yn cael ei gymhwyso yn gyson ac yn gadarn. Cefnogwyd hyn gan farnau swyddogion, ac esboniwyd bod deall y ffordd fwyaf priodol o ddefnyddio grym ar rywun sy'n profi salwch meddwl yn bryder i rai. Nodwyd eu defnydd ar ddefnyddio "greddf" yn hytrach na dealltwriaeth drylwyr o broses wedi'i theilwra yn arbennig i'w dilyn wrth fynychu sefyllfaoedd cymhleth. Mynegodd swyddogion rwystredigaeth nad oedd y Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl a gwasanaethau iechyd bob amser ar gael i gynnig cyngor yn ôl yr angen.

Cododd gynrychiolwyr Grŵp Ymgynghorol Annibynnol y mater o stopio a chwilio, gan ystyried bod hyn yn arfer o rym gan swyddogion heddlu a chan hynny dylid

[15]Mae'r Grŵp Ymgynghori Annibynnol (IAG) yn ffrind critigol i'r Gwasanaeth Heddlu a'r Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'n fforwm lle gall cynghorwyr annibynnol roi cyngor annibynnol am faterion penodol a adnabuwyd gan yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

ei ystyried o fewn trafodaethau yn ymwneud â defnydd o rym. Er bod stopio a chwilio yn parhau yn fater ar wahân a chan hynny nid yw wedi'i gynnwys o fewn cwmpas yr adolygiad hwn, mae'n cael ei oruchwylio gan grŵp llywodraethu defnydd o rym ac yn cael ei graffu mewn modd tebyg.

Yr ystyriaeth allweddol y tynnwyd sylw ati gan gynrychiolwyr o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol oedd i swyddogion ddeall yr unigolyn, oherwydd roeddynt yn teimlo y gallai'r ymdriniaeth gychwynnol arwain at ddwysau dianghenraid ar sefyllfa, er enghraifft, defnydd ansensitif ar derminoleg rhyw a allai achosi tramgwydd, sy'n arwain at drais, sydd wedyn yn arwain at rym yn cael ei ddefnyddio a allai fod wedi'i osgoi fel arall.

### *3.2.1.4 Math o Rym*

Ymhlith y mathau o rym a ddefnyddiwyd yn fwyaf cyffredin oedd rhoi gefynnau, cyfathrebu tactegol (e.e. gorchmynion a rhybuddion), sgiliau heb arfau (megis gwasgbwyntiau a llorio pobl) ac atalfeydd llawr (cyfyngu ar symudiad yr unigolyn tra'i fod ar y llawr) yn y drefn honno. Cofnodwyd bod gwrthrychau yn arddangos ffurf ar wrthiant corfforol yn ymron i hanner y ffurfiau a gyflwynwyd. Yn dilyn eu cyflwyno ym mis Ebrill 2018, adroddwyd bod Giardiau Poeri a Brathu wedi'u defnyddio ar 11 achlysur (hyd at 30 Mehefin 2018). Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwahanol fathau o rym a ddefnyddiwyd[16].

| **Math o rym** | Sawl gwaith y cofnodwyd |
|---|---|
| **Rhoi gefynnau** (gan gynnwys cydsynio a heb gydsynio) | 683 |
| **Cyfathrebu tactegol** | 536 |
| **Sgiliau heb arfau** | 419 |
| **Atalfeydd llawr** | 78 |
| **Taser*** | 53 |
| **Arall / byrfyfyr** | 45 |
| **Atalfeydd breichiau/coesau / corff** | 29 |
| **Arfau tanio* / AEP[17]** | 27 |
| **Defnyddio chwistrell lidiog** | 20 |
| **Giard Poeri a Brathu** | 11 |
| **Baton / tarian** | 3 |

* Mae defnydd ar taser ac arfau tanio yn cynnwys pob math o ymateb (gan gynnwys wedi'i anelu ond heb ei danio).


Mae Grŵp Defnydd o Rym Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i weithio gyda'r adran Technoleg Gwybodaeth i ddatblygu system i gofnodi pob achlysur pan fydd tacteg dull mynediad yn cael ei ddefnyddio.

Cofnodir y ffigurau hyn gan Banel Sicrwydd Ansawdd y Comisiynydd[18] ac aelodau'r cyhoedd[19] a holwyd. Roedd y Panel o'r farn bod swyddogion yn hynod

[16] Data wedi'i dynnu o broffil perfformiad Defnydd o Rym Dyfed-Powys Ebr-Meh 2018.
[17] Gwanhau taflegrau egni – "bwledi rwber" nad ydynt yn farwol.

bwyllog, gan ddelio gyda digwyddiadau yn gymesur ac yn rhesymol, gan ddangos parch, ac yn cynnal urddas yr unigolion a oedd yn gysylltiedig â'r achosion a gafodd eu hadolygu. Datganodd mwyafrif helaeth y cyhoedd (90%) eu bod o'r farn bod swyddogion wedi defnyddio grym yn gymesur, fel y dangosir yn ffigwr 2.

**Ffigwr 2. Ymateb y cyhoedd: "A ydych chi o'r farn bod swyddogion yr heddlu yn defnyddio grym yn gymesur?"**




Yn gyffredinol, roedd adborth y cyhoedd yn gadarnhaol, gyda chyfranogwyr yn mynegi eu cefnogaeth dros weithredoedd swyddogion a nifer yn galw i fwy o rym gael ei ddefnyddio:

> *"Nid yw pobl yn trin yr heddlu gyda digon o barch."*
>
> *"Dim ond ar ôl i sefyllfaoedd ddwysau y mae pobl yn eu cofnodi, sy'n gwneud i'r swyddogion edrych yn wael. Defnyddio'r hyn sy'n ofynnol."*
>
> *"Mae'r gyfraith yn rhy llym – dylai'r heddlu ddefnyddio mwy o rym."*

---

[18] Yn cynnwys preswylwyr gwirfoddol ar draws ardal Dyfed-Powys, mae'r Panel yn adolygu ansawdd cyswllt yr heddlu gyda'r cyhoedd mewn modd tryloyw ac annibynnol. O'r pum digwyddiad a adolygwyd, roedd un yn cynnwys un giard poeri a brathu, dau yn cynnwys defnydd chwistrell llidiog a'r cyfan yn cynnwys defnydd ar atalfeydd a gefynnau llaw.

[19] Trwy Sioe Sirol Penfro, Diwrnod Agored Heddlu Dyfed-Powys ac arolwg ar-lein (nifer yr ymatebwyr = 169).

Adnabu eraill yr angen i rym gael ei ddefnyddio'n fwy cymesur:

> *"Mae pob sefyllfa yn wahanol."*
>
> *"Mae'n dibynnu ar yr unigolion. Os yw'r person yn troseddu drachefn, mae'n bosibl y byddan nhw'n defnyddio mwy o rym gan eu bod yn gwybod sut maen nhw."*
>
> *"Maen nhw'n defnyddio grym pan fydd angen iddynt."*

Ond mae achlysuron pan na fydd hyn yn wir:

> *"Weithiau defnyddir grym ar y bobl anghywir."*
>
> *"Weithiau mae gormod o rym yn cael ei ddefnyddio. Ond does ganddynt ddim y darlun cyfan – arf. Gwell bod yn ddiogel."*

Cydnabu rhai cyfranogwyr hefyd efallai nad oes ganddynt ddigon o brofiad neu ddealltwriaeth i ddarparu barn wybodus:

> *"O'r hyn yr wyf i wedi'i weld."*
>
> *"Rhaid delio gyda rhai unigolion yn amlach... gwylio llawer o deledu."*
>
> *"Mae defnydd cyfreithlon yn gyfreithlon. Ddim yn siŵr felly methu ateb."*

Pan ofynnwyd a oeddynt yn deall eu hawliau mewn perthynas â phwerau'r heddlu i ddefnyddio grym, datganodd ymron i ddau draean (62%) o ymatebwyr (n=164) bod ganddynt wybodaeth dda neu beth gwybodaeth; fel y dangosir yn y tabl isod.

| Lefel o ddealltwriaeth | Da | Peth | Ychydig | Dim |
|---|---|---|---|---|
| Canran | 27.4% | 34.1% | 25% | 13.4% |

Ymhlith rhai o'r sylwadau a rannwyd oedd:

> *"Dim ond yn gwybod trwy wylio'r teledu"*
>
> *"Dw i ddim yn bwriadu cael fy arestio"*

### 3.2.2 Ymosodiadau ac anafiadau i swyddogion a staff

Adroddodd 61 o swyddogion a staff anafiadau trwy eu cyflwyniadau defnydd o rym o fewn y cyfnod adrodd Ebrill-Mehefin. Adroddodd y mwyafrif fân anafiadau, serch hynny cofnododd ddau anafiadau difrifol a phoerwyd ar 31. Coladwyd y

data hwn o'r hyn y mae swyddogion yn ei ddatgan ar eu ffurflen defnydd o rym, nad yw'n rhoi manylion a gafodd yr anaf ei achosi cyn, neu o ganlyniad, i ddefnydd o rym y swyddog. Mae swyddogion yn gallu mynychu'r Uned Iechyd Galwedigaethol a rhaid adrodd am anafiadau neu ddamweiniau fu bron â digwydd trwy'r Adran Iechyd a Diogelwch. Nid yw data'r ddwy adran, yn eu fformat cyfredol, yn cynnwys defnydd o rym fel adran i'w hadrodd; gan hynny mae'n hynod anodd dod i unrhyw gasgliadau ystyrlon am gyfradd y digwyddiadau i'w hadrodd yn ymwneud â defnydd o rym. Mae unrhyw ddata anafiadau wedi'i ddyfynnu o broffiliau perfformiad yr Heddlu, sy'n coladu cyflwyniadau ffurflenni defnydd o rym lle y mae swyddogion yn rhoi tic mewn blychau perthnasol yn ymwneud â lefel yr anaf a achoswyd gan y swyddog neu'r un dan amheuaeth.

Mae'r Ddeddf Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau) newydd yn dyblu'r ddedfryd uchaf ar gyfer y rheini sy'n ymosod ar swyddogion yn ystod hynt eu dyletswyddau. Gan hynny mae adrodd cywir a thrylwyr o anafiadau a ddioddefwyd yn ystod ymgymryd â dyletswyddau yn orfodol felly; nid yn unig er mwyn sicrhau erlyniadau llwyddiannus yn ôl yr angen, ond i sicrhau bod lles swyddogion yn cael ei ddiogelu.

### 3.2.3 Trefniadau archwilio ac adolygu

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofynion ffurfiol i ffurflenni defnydd o rym gael eu cyflwyno i reolwyr llinell eu hadolygu, ac nid oes amserlen archwilio ddiffiniedig; serch hynny mae rhai adolygiadau yn digwydd, yn enwedig ar ôl digwyddiadau sylweddol. Mae'r holl ddigwyddiadau lle'r oedd Taser neu arfau tanio wedi'u tanio yn cael eu hadolygu gan yr Heddlu, oni bai bod y lleoli wedi'i wneud trwy'r Uned Arfau Tanio ar y Cyd[20], lle y mae goruchwylwyr arbenigol yn cynnal adolygiadau o'r holl leoliadau arfau tanio.

Mae nifer o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi yn 'allan o ardal yr heddlu/arall'. Mae hyn oherwydd swyddogion Dyfed-Powys yn mynychu digwyddiadau yn ardaloedd heddluoedd eraill, megis ymatebion ar y cyd wedi'u cynllunio ymlaen llaw i ddigwyddiadau. Cyflwynir ffurflenni i ardal 'cartref' y swyddog, waeth beth yw lleoliad y digwyddiad, gan hynny mae'n bosibl y bydd y rhain yn dal i gael eu cyfrif a'u hadolygu gan Heddlu Dyfed-Powys.

Er bod achosion Taser, cŵn ac arfau tanio yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar ôl pob lleoliad a bod disgwyliad (anffurfiol) y dylai goruchwylwyr gynnal sampl ar hap o gyflwyniadau defnydd o rym eu staff, mynegwyd barn y dylai'r holl

[20] Mae'r Uned Arfau Tanio ar y Cyd yn gydweithrediad rhwng Heddluoedd Dyfed-Powys, Gwent a De Cymru. Mae swyddogion ar secondiad i'r uned i ymateb i ddigwyddiadau ar draws y 3 ardal heddlu.

ffurflenni defnydd o rym gael eu cyflwyno trwy'r goruchwylwyr i'w hadolygu ac adrodd yn ôl.

Roedd adolygiadau goruchwylwyr o ffurflenni Taser yn ôl pob sôn wedi dangos dealltwriaeth dda o gyfiawnhau eu gweithredoedd o dan bwerau cyfreithiol perthnasol, ond llai o ddealltwriaeth o'r polisïau sy'n llywodraethu eu gweithredoedd. Trwy adolygiad gyda'u goruchwylydd, roedd swyddogion yn gallu lleisio eu rhesymeg a gwybodaeth o bolisi a ddylai yn ei dro arwain at ddogfennau  gwell yn y dyfodol.

Roedd barnau yn gymysg ar p'un a ddylai'r ffurflenni gael eu hadolygu gan oruchwylwyr ai peidio. Eiriolodd un grŵp o swyddogion y dylid eu herio er mwyn sicrhau bod y 'system' yn effeithiol. Datganodd eraill nad oeddynt yn teimlo'u bod angen cael eu cefnogi gan mai eu cyfrifoldeb hwy yw eu gweithredoedd eu hunain.

### 3.2.4 Fideo Camera Corff (BWV)

Adroddodd Prif Swyddogion yn eu sioeau ffordd 2018 i staff bod 811 o gamerâu a 68 o gamerâu pen wedi'u dosbarthu. Dywedwyd bod 19,000 eitem o ffilm (o bob math) wedi'u huwchlwytho a heb eu tagio, er enghraifft, dim ond 10% (51 eitem) o ffilm a oedd wedi'u tagio fel stopio a chwilio yn ystod cyfnod lle'r oedd 516 stopio a chwilio wedi'u cofnodi. Ar hyn o bryd nid oes categori tagio ar gyfer ffilm defnydd o rym, gan hynny mae'n hynod anodd asesu cyfradd y defnydd Fideo Camera Corff a chynnal cymhariaeth gyda chyflwyniadau ffurflenni defnydd o rym. Yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn, adroddwyd bod cynnydd wedi'i wneud wrth gyflwyno cyfeirnodau unigryw i gyflwyniadau defnydd o rym, a ddylai gynnig peth datrysiad. Mae ffilm yn cael ei ddileu yn awtomatig o Evidence.com ar ôl 31 diwrnod, oni bai ei bod wedi'i nodi yn dystiolaeth, yn gyfyngedig neu'n gŵyn posibl. Mae'r cyfnod dargadw cyfyngedig hwn yn cyflwyno maes pryder, gan y gallai ffilm fod wedi'i dileu ar ôl 1 mis os na wnaeth y swyddog cofnodi ragweld cwyn, ac mae gan unigolion hyd at 12 mis i gyflwyno cwyn.

Mynegodd swyddogion eu bod yn teimlo bod ganddynt well amddiffyniad yn sgil argaeledd Fideo Camera Corff; serch hynny gallai uwchlwytho'r ffilm fod yn anwadal. Adroddodd un cyd-weithiwr ddigwyddiad ei fod wedi docio ei gamera am 2300 o'r gloch un noson i uwchlwytho 55 munud o ffilm ac wedi dychwelyd i'r gwaith am 0900 o'r gloch y diwrnod wedyn a gweld nad oedd yr uwchlwythiad wedi'i gwblhau. Arweiniodd hyn at yr uwchlwythiad yn cael ei ganslo gan fod angen y camera ar gyfer y shifft nesaf. Nid yw'n hysbys beth oedd arwyddocâd y darn hwn o ffilm; serch hynny mae'n tynnu sylw at bryder a allai gael ei ailadrodd ar draws defnyddwyr. Awgrymodd defnyddwyr eraill nad yw cyflymder yr uwchlwytho yn bryder bellach, gan fod cysylltiadau cyflymder uchel wedi'u

gosod mewn gorsafoedd yn sgil buddsoddiad o £1.5m yn y Rhwydwaith Ardal Eang.

Cydnabu staff canolog bod diffyg argaeledd tystiolaeth Ffilm Camera Corff yn cyflwyno anawsterau ac oediadau, er enghraifft wrth ddatrys achosion o gwynion / cyfreitha. Serch hynny, nid problemau gydag uwchlwytho oedd y broblem. Er nad oedd y diffyg ffilm yn broblem nad ellid ei datrys, y canlyniad oedd ymchwiliadau hwy a mwy cymhleth gan eu bod angen tystiolaeth o nifer o ffynonellau er mwyn "creu darlun" a allai fod wedi'i ddarparu'n rhwydd o Ffilm Camera Corff. Rhoddwyd un enghraifft lle'r oedd ffilm ar gael ar gyfer arwain at ffrae, ond roedd y camera wedi'i ddiffodd trwy ddamwain o ganlyniad i ymgiprys rhwng y swyddog a'r unigolyn dan amheuaeth. Er ei bod hi'n fwy cymhleth datrys yr achos oherwydd absenoldeb ffilm o'r foment dan sylw, roedd y ffilm a oedd ar gael yn parhau yn ddefnyddiol wrth ddangos ymddygiad y ddwy ochr wrth arwain at yr ymgiprys.

Er bod staff canolog a swyddogion gweithredol yn gwahaniaethu yn eu barnau ar addasrwydd y cyfleusterau uwchlwytho, roedd y ddau grŵp yn cytuno nad oedd Ffilm Camera Corff yn cael ei actifadu cymaint ag y gallai ac y dylai. Cydnabu swyddogion eu bod yn parhau i "ddod i'r afael" â'r dechnoleg ac yn aml yn anghofio actifadu'r camerâu pan oeddynt mewn sefyllfaoedd tanbaid neu adweithiol. Ymddengys bod swyddogion yn fwy tebygol o actifadu wrth fynd ar leoliad wedi'i gynllunio neu at unigolion bregus.

Esboniodd rai adrannau arbenigol eu bod wedi mynegi pryderon yn ymwneud â'r hysbysiad recordio[21] yn effeithio ar eu dyletswyddau. Er enghraifft, roedd swyddogion yn pryderu y gallai'r golau yn fflachio / bipian fod yn cyfaddawdu eu lleoliad wrth chwilio am unigolyn dan amheuaeth neu yn ystod arsylwi. Adroddwyd bod swyddogion wedi gofyn i'r swyddogaeth gael ei analluogi, ar y ddealltwriaeth y byddent yn hysbysu'r rheini'n bresennol eu bod yn recordio. Datganodd swyddogion eu bod wedi'u hysbysu nad oedd hyn yn bosibl, er roeddynt yn ymwybodol bod hyn wedi'i wneud mewn ardaloedd eraill.

Mae camerâu Ffilm Camera Corff wedi'u dosbarthu yn bersonol i rolau penodol, yn bennaf Cwnstabliaid, Rhingylliaid a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu rheng flaen. Ar hyn o bryd nid oes gan swyddogion ar reng uwchlaw Rhingyll fynediad at gamerâu. Awgrymwyd gan swyddogion uwch y gallai 'cronfa' fechan o gamerâu fod yn fuddiol ar gyfer pan fyddai gofyn i uwch swyddogion fynychu rhai digwyddiadau, i recordio eu penderfyniadau a'u safbwynt o ddigwyddiadau, er enghraifft pan fyddant ar ddyletswydd Awdurdod Aur. Serch hynny, rhaid mynd i'r afael â mater storio ffilm cyn ystyried hyn.

[21] Mae camerâu yn fflachio ac yn bipio yn rheolaidd i atgoffa'r rheini yn bresennol ei fod yn recordio.

### 3.2.5 Ystyriaethau moesegol a chwynion

Gyda chyffredinolrwydd cyfryngau cymdeithasol, mwy o sioeau teledu ar thema'r heddlu ac ymwybyddiaeth gyhoeddus gynyddol o'u hawliau, mae'r potensial ar gyfer camliwio a chamsyniad yn llawer uwch. Mae swyddogion yn teimlo'r angen i gyfiawnhau ac esbonio eu hunain i bobl sy'n gwylio gerllaw, yn ymwybodol iawn eu bod yn debyg o gael eu ffilmio ar ffrydiau cyfryngau cymdeithasol byw, a allai gipio rhan o'r digwyddiad yn unig.

Pan fydd cwyn yn honni defnydd o rym gormodol yn cael ei chofnodi gan yr Adran Safonau Proffesiynol, y cam cyntaf yw edrych ar unrhyw gyflwyniadau ffurflenni defnydd o rym a Ffilm Camera Corff cyfatebol yn ymwneud â'r digwyddiad. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu nad yw'r rhain bob amser yn bresennol. Lle'r oedd ffurflenni adrodd defnydd o rym a Ffilm Camera Corff ar gael yn rhwydd, roedd cwynion yn aml yn cael eu datrys mewn modd mwy prydlon.

Cofnododd Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu 55 o honiadau o gwynion yn ymwneud â defnydd o rym rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mehefin 2018. Ystyriwyd bod chwech o'r honiadau hyn yn ymosodiadau difrifol.

O blith y 55 o honiadau, mae 40 o ymosodiadau nad ydynt yn ddifrifol wedi'u terfynu hyd yma. Arweiniodd un honiad at ymchwiliad gofynion arbennig lle canfuwyd na chafwyd achos i'w ateb. Roedd 36 heb eu cynnal neu wedi'u terfynu a dim ond tri a oedd angen datrysiad lleol, oherwydd ni chafwyd arwydd y byddai achosion troseddol neu ddisgyblaeth yn cael eu cyfiawnhau neu fod unrhyw dorri ar hawliau dynol yr achwynydd. Roedd dau o'r achosion yn perthyn i roi gefynnau llaw a achosodd gleisio, a'r canlyniad oedd esbonio wrth yr achwynwyr y rheswm dros gymryd y camau. Roedd ffilm teledu cylch cyfyng gan y trydydd digwyddiad a oedd yn cefnogi bod yr unigolyn dan amheuaeth yn ymosodol tuag at y swyddog a bod yr ymateb dilynol yn rhesymol. Ni chymerodd yr achwynydd hwn ran yn y broses datrysiad lleol. Mae dadansoddiad llawn o'r ystadegau hyn i'w gweld yn atodiad 3. Mae'r gyfran uchel o gwynion yn erbyn defnydd o rym swyddogion na chafodd eu cynnal yn cefnogi barn y Panel QA bod swyddogion yn cynnal eu hunain yn briodol.

Ar ôl ystyried crynodeb o bob un o'r honiadau hyn, mae'n ymddangos bod mwyafrif yr achwynwyr yn honni eu bod yn amodol ar rym gormodol trwy sgiliau heb arfau (ergyd, gwasgbwyntiau a llorio pobl) (30 o honiadau), rhoi gefynnau llaw (11 o honiadau) ac atalfeydd llawr (8 o honiadau).

Wrth ystyried hawliad o ddifrod, mae Adran Gyfreithiol Heddlu Dyfed-Powys yn adolygu a oedd y swyddogion dan sylw wedi defnyddio pwerau heddlu yn gyfreithlon. Am y rheswm hwn, bydd mynediad at yr holl wybodaeth sydd wedi'i chofnodi yn ymwneud â'r digwyddiad honedig yn hanfodol er mwyn dod i gasgliad gwybodus. Yn ystod y 6 blwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r Adran

Gyfreithiol wedi delio gyda 15 hawliad sifil yn ymwneud â defnydd o rym, yr oedd naw ohonynt yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/14. Arweiniodd pum achos at setliad yn cael ei gyflawni, cafodd 7 eu gwrthod, dau eu tynnu yn ôl ac un eu bwrw allan yn y llys. Ar hyn o bryd mae'r Adran yn delio gyda phedwar achos byw.

Gofynnwyd i wasanaethau a gomisiynir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a oeddynt wedi derbyn unrhyw adroddiadau gan eu defnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud â defnydd o rym gan swyddogion. O blith yr 8 gwasanaeth a holwyd, ymatebodd pedwar nad oeddynt yn ymwybodol o unrhyw bryderon yn ymwneud â defnydd o rym yr heddlu. Tynnodd un gwasanaeth sylw at ddigwyddiad sylweddol yng nghanolfan ddalfa'r heddlu lle'r oedd bysedd y defnyddiwr gwasanaeth wedi'i ddal yn nrws y gell. Derbyniodd y digwyddiad hwn sylw sylweddol yn y cyfryngau ac mae'r ymchwiliad / achos cyfreithiol sy'n deillio ohono yn parhau.

### 3.2.6 Ymrwymiadau Ariannol

Yn unol â nifer o heddluoedd eraill, mae Dyfed-Powys wedi cyflwyno gwardiau poeri a brathu yn ddiweddar, gan fuddsoddi cyfanswm o £3,150 i gyfarparu eu swyddogion rheng flaen.

Cyfanswm y gwariant cyfalaf ar y Prosiect Ffilm Camera Corff oedd £342,788 ar draws cyfnod o ddwy flynedd. Er nad yw Ffilm Camera Corff yn cael ei ddefnyddio'n unig i fonitro defnydd o rym swyddogion, mae'n fuddsoddiad sylweddol sydd â'r potensial i gefnogi swyddogion wrth gyfiawnhau eu gweithredoedd ac wrth ateb unrhyw honiadau o rym gormodol yn cael ei ddefnyddio.

Mae'r buddsoddiadau diweddar hyn yn ychwanegol at wariant parhaus ar gyfarpar a hyfforddiant yn gysylltiedig â defnydd o rym, sydd wedi'i gynnwys o fewn y gyllideb weithredol ehangach.

### 3.2.7 Gwybodaeth a hyder y gweithlu

Awgrymodd mwyafrif y rheini a gyfrannodd o fewn y grwpiau ffocws eu bod yn gyfforddus i ddefnyddio'u pwerau grym:

> *"Mae'n rhan o'r swydd"*
>
> *"Os gallwch chi gyfiawnhau eich gweithredoedd, does dim problem wrth eu defnyddio"*

Serch hynny, ymddengys o'r trafodaethau y gallai cefndiroedd y swyddogion (h.y. hyd y gwasanaeth neu reng) ac amgylchiadau'r sefyllfa a wynebir arwain at y gwahanol weithredoedd. Mynegodd rai swyddogion bryder eu bod yn rhoi eu hunain wrth risg gynyddol trwy geisio delio â sefyllfaoedd heb ddefnyddio grym (neu ffurf lai). Rhannodd un cydweithiwr ei brofiad o ddioddef datgymalu cymal pan oedd yn gyndyn o ddefnyddio grym ac ystyriwyd y gallai'r canlyniad fod yn wahanol pe bai wedi bod yn fwy parod i ddefnyddio ymdriniaeth fwy grymus.

### 3.2.8 Hyfforddiant

Mae disgwyl i'r holl staff gweithredol (swyddogion heddlu, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion Dalfa) ymgymryd â chyrsiau diweddaru Hyfforddiant Diogelwch Personol blynyddol[22]. O dan amgylchiadau arbennig, gellid caniatáu 6 mis pellach i swyddogion gwblhau'r hyfforddiant, serch hynny, ar ôl 18 mis ni ddylai swyddogion gael eu rhoi ar leoliad gweithredol. Dengys gwybodaeth o gofnodion personél yr Heddlu bod 91%[23] o swyddogion wedi cwblhau a phasio'r hyfforddiant diweddaru o fewn y 12 mis diwethaf.

Awgrymwyd efallai y byddai hyfforddiant ychwanegol neu fwy trylwyr yn addas ar gyfer swyddogion mwy newydd er mwyn codi eu hyder wrth ddefnyddio eu pwerau grym. Mae hyn yn cael ei ddatblygu, gyda chynlluniau i gynnwys y gofynion gweinyddol o fewn gwersi defnydd o rym recriwtiaid newydd ac asesiadau senario terfynol. Cefnogwyd hyn gan gydweithwyr o fewn grwpiau ffocws, a awgrymodd y dylai ysgrifennu'r ffurflen defnydd o rym, yn enwedig deall y ffactorau effaith, gael ei gynnwys o fewn eu hyfforddiant.

Teimlodd lawer bod datgysylltiad rhwng hyfforddiant a realiti, gyda'r atalfeydd sy'n cael eu dangos yn yr hyfforddiant yn aneffeithiol mewn realiti. Rhoddodd rai swyddogion enghreifftiau o pan oedd un unigolyn angen pedwar swyddog i'w atal, neu mewn digwyddiadau ar raddfa fawr le y gallai grym lefel isel gael ei ddefnyddio yn gyflym ar ôl ei gilydd ar lawer o unigolion er mwyn tywys neu reoli torfeydd. Un awgrym a dderbyniwyd oedd y dylai swyddogion fod yn gallu gweithio tuag at gymhwyster hunanamddiffyn sylfaenol, hwyrach trwy grefft ymladd er mwyn dysgu mwy o dechnegau (effeithiol). Roedd swyddogion yn un o'r grwpiau ffocws yn unfrydol wrth fynegi eu barnau y dylai'r hyfforddiant defnydd o rym fod yn amlach, yn fwy dwys ac yn fwy realistig. Awgrymwyd y dylai ffilm o ddigwyddiad go iawn o senarios defnydd o rym gael eu defnyddio i gefnogi hyfforddiant. Adroddwyd gan yr adran hyfforddi bod y pecyn hyfforddi o dan adolygiad parhaus, gydag adborth o anafiadau a digwyddiadau fu bron a digwydd i hysbysu ystyriaethau ychwanegol. Esboniodd yr adran hyfforddi hefyd

[22] Mae cyrsiau diweddaru swyddogion arfau tanio yn cael eu cynnal bob 6 mis.
[23] Cwblhaodd 1087 allan o 1175 o swyddogion yr hyfforddiant, methodd 14. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys recriwtiaid newydd.

bod hyfforddwyr yn ei chael hi'n anodd sicrhau adborth gan gyfranogwyr y cwrs; gan hynny gallai'r awgrymiadau uchod fod yn ddefnyddiol ar gyfer datblygu'r cwrs yn y dyfodol.

# 4.0 Canlyniadau

Mae diffyg cyfeirnod unigryw, wedi'i gyfuno gyda diffyg tag i gategoreiddio defnydd o rym penodol o fewn y meddalwedd storio Ffilm Camera Corff yn golygu bod tystiolaeth o gysylltiadau lle mae grym wedi'i ddefnyddio yn hynod anodd eu lleoli. Gallai goblygiadau hyn gynnwys:

- Adnoddau
    - Defnydd helaeth o amser staff a swyddog yn 'pori' trwy gofnodion mewn ymdrech i ddod o hyd i ffilm berthnasol.
    - Cwynion a honiadau yn cymryd hwy i'w datrys oherwydd analluu i leoli ffilm a all fod yn dystiolaeth.
- Ariannol
    - Potensial i fwy o hawliadau am iawndal 'grym gormodol' llwyddiannus oherwydd nad yw swyddogion yn gallu gwrthbrofi honiadau heb gofnodion a ffilmiau.
    - Adenillion gwael o fuddion er buddsoddiad sylweddol yn Ffilm Camera Corff.
- Storfa TG a Diogelu Data
    - Cadw / dileu ffilm yn amhriodol oherwydd potensial ar gyfer tagio amhriodol.
    - Anhawster wrth drin ceisiadau gwrthrych am wybodaeth oherwydd anawsterau wrth adnabod unigolion cywir yn y ffilm heb gofnodion ysgrifenedig cyfatebol.
- Hyder y cyhoedd a lles staff
    - Gallai diffyg tryloywder ostwng ymddiriedaeth gwrthrychau a hyder yn yr heddlu.
    - Anhawster wrth weithredu goruchwyliaeth effeithiol ac archwilio samplu ar hap i ystyried effeithlonrwydd yr ymdriniaethau.
    - Gallai diffyg ymddiriedaeth yng nghywirdeb y cofnodi effeithio'n negyddol ar les swyddogion a staff.
    - Posibilrwydd wrth i gydymffurfiad gynyddu mai'r canfyddiad fydd bod grym yn cael ei ddefnyddio mwy nac ydyw mewn gwirionedd gan fod y data ar hyn o bryd dim ond yn cynrychioli nifer o ffurflenni a gyflwynir ac nid nifer y digwyddiadau.

Mae'n amlwg o broffiliau defnydd o rym yr Heddlu ei bod hi'n anodd tynnu data ystyrlon a chyson o'r cyflwyniadau. Yr argraff a gafwyd o drafodaethau gyda swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys oedd bod defnydd ar ffurflenni defnydd o rym wedi'u cyflwyno ar gyfer casglu ystadegau er mwyn bodloni gofynion

adrodd Swyddfa Gartref. Cafwyd pryder er gwaethaf cyfathrebu canolog drachefn, bod anghysondeb gweithredol ymddangosiadol wrth ddeall beth oedd defnydd o rym a oedd angen ei adrodd; ac ar ôl hynny barnau gwahanol ar ba bryd y mae angen ffurflen defnydd o rym.

Nid yw cyfyngiadau yn y ffurflenni cyfredol yn annog swyddogion i gyfiawnhau eu gweithredoedd pan fydd grym yn cael ei ddefnyddio, serch hynny mae arweiniad yn annog swyddogion i nodi eu rhesymeg ar wahân yn eu llyfrau poced. Trwy wahanu rhesymeg oddi wrth y data, mae'n anos i'r rheini sy'n adolygu cofnodion i ddod i farnau hysbys, gorffenedig ar p'un a wnaeth y swyddog weithredu yn unol â gwerthoedd yr Heddlu.

Mae Ffilm Camera Corff yn caniatáu i adolygwyr ystyried sut y mae sefyllfaoedd yn dwysau ac ymddygiad pawb dan sylw. Mynega adborth gan Banel Sicrwydd Ansawdd y Comisiynydd pa mor fuddiol yw gallu ystyried y ffilm, gan alluogi iddynt roi sicrwydd i'r Comisiynydd, o'r cofnodion a adolygwyd, bod swyddogion wedi defnyddio eu pwerau grym yn bwyllog, yn barchus a gydag urddas mawr. Rhaid nodi serch hynny, bod argaeledd ffilm yn gyfyngedig oherwydd y materion technegol y tynnwyd sylw atynt yn flaenorol yn yr adroddiad hwn.

Nid ymddengys bod y data a gynhyrchwyd trwy gyflwyniadau ffurflenni swyddogion yn gysylltiedig â systemau eraill sydd ar waith, ac nid yw ychwaith yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gynnig mewnwelediadau i sut, pryd, ble neu pam y mae grym yn cael ei ddefnyddio a goblygiadau hyn. Gan hynny mae'n anodd cynnig tystiolaeth a yw Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio'r data sydd ar gael i adolygu defnydd anghymesur posibl neu hysbysu eu hymdriniaethau yn y dyfodol tuag at ryngweithio â'r cyhoedd a diogelwch swyddogion.

Heb gyfeirnodau unigryw, cyfeiria'r holl ddata dan ystyriaeth at nifer yr adroddiadau ac nid nifer y gwrthrychau, digwyddiadau, swyddogion neu leoliadau. Mae'r diffyg sylfaenol hwn yn arwain at yr Heddlu yn methu asesu cydymffurfiad swyddogion yn gywir gyda gofynion cofnodi neu broffilio'n effeithiol sut a ble y mae grym yn cael ei ddefnyddio ac ar bwy. Mae hyn yn ei dro yn cyfaddawdu cyfanrwydd y data, a gasglwyd at ddiben gwella atebolrwydd cyhoeddus.

# 5.0 Gweithredoedd

Ar ôl ystyried y wybodaeth a gasglwyd trwy'r adolygiad hwn, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gofyn i'r Prif Gwnstabl ystyried yr argymhellion a ganlyn.

Ar unwaith:

1. Cyflwyno Cyfeirnodau Unigryw ar gyfer ffurflenni defnydd o rym fel mater o frys.
2. Rhaid defnyddio Cyfeirnodau Unigryw i sicrhau bod Ffilm Camera Corff yn cael ei dagio'n briodol ac yn hawdd cael gafael arno.
3. Cyfathrebu gofynion cofnodi clir a chyson i swyddogion a staff, gan gynnwys pwysigrwydd Ffilm Camera Corff a chyfiawnhad dros y grym a ddefnyddiwyd.
4. Adolygu ac ymgynghori gyda swyddogion ar becyn hyfforddi defnydd o rym i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu realiti hyd y gellir ac yn cynnwys sylw digonol i'r gofynion adrodd.

Cyn gynted â phosibl:

5. Sefydlu trefniadau archwilio a goruchwylio i asesu dealltwriaeth a chydymffurfiad dilynol gyda'r gofynion cofnodi defnydd o rym.
6. Adolygu ffurflenni defnydd o rym cyfredol gyda'r bwriad o awto-lenwi meysydd, gostwng swm y data sy'n ofynnol ac ystyried sut y mae rhesymeg y swyddogion yn cael ei chofnodi.
7. Gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i addysgu'r cyhoedd o ddefnydd o rym angenrheidiol, rhesymol a chymesur gan swyddogion heddlu a'u hawliau wrth arfer y pwerau.
8. Sicrhau bod swyddogion yn llenwi proffil unigol yn rheolaidd y rheini sy'n amodol ar rym er mwyn galluogi monitro'n briodol defnydd anghymesur posibl ar wahanol grwpiau demograffig.

Yn y dyfodol:

9. Ystyried darparu 'cronfa' o gamerâu Ffilm Camera Corff ar gyfer y rheini heb ddyraniad personol i'w defnyddio pan fydd angen gweithredol.
10. Gwella'r ffordd y mae'r Heddlu yn cofnodi anafiadau swyddogion sy'n gysylltiedig â defnydd o rym. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod swyddogion wedi'u cyfarparu a'u diogelu'n briodol rhag dioddef niwed yn ystod hynt eu dyletswyddau.
11. Parhau i weithio gyda gwasanaethau iechyd lleol i ddatblygu cynlluniau wedi'u teilwra ar gyfer rheoli'n briodol (gan gynnwys y ffurfiau grym mwyaf diogel, effeithiol a phriodol a argymhellir) troseddwyr drachefn, yn enwedig y rheini â nodweddion gwarchodedig.
12. Gwaith gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i wella cynnwys y cyhoedd wrth graffu cyswllt swyddogion yr heddlu â'r cyhoedd.

13. Blaenoriaethu penderfyniad ar system rheoli cofnodion yn y dyfodol, gan sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i wella’r gallu i ryngweithredu a gwella awto-lenwi rhai meysydd, gan gynnwys gostwng cyfaint y gofynion adrodd ar wahân sy’n cael ei osod ar swyddogion.
14. Adolygu pryderon adrannau arbenigol i sicrhau bod swyddogion wedi’u cyfarparu’n briodol i ymgymryd â’r dyletswyddau’n effeithiol.

# 6.0 Adolygu

## 6.1 Nodau

Roedd y corff hwn o waith yn ceisio:

1. Rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio eu pwerau grym yn briodol;
2. Gwella hyder y cyhoedd yn Heddlu Dyfed-Powys; a
3. Gwella perfformiad yn y maes hwn (Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu).

Trwy:

a) Adnabod unrhyw dueddiadau o ran defnydd o rym swyddogion a staff Dyfed-Powys;
b) Tynnu sylw at feysydd arfer da a meysydd i'w gwella;
c) Darparu trosolwg annibynnol o ddefnydd o rym yr heddlu a sicrwydd o fonitro gan Heddlu Dyfed-Powys;
d) Ceisio sicrwydd bod swyddogion yn cofnodi holl ddigwyddiadau o ddefnydd o rym yn briodol; a
e) Hysbysu'r cyhoedd am eu hawliau o ran defnydd o rym gan swyddogion heddlu.

## 6.2 Casgliad

Yr argraff a grëwyd trwy'r adolygiad hwn yw mai "ffordd Heddlu Dyfed-Powys" yw plismona yn ôl caniatâd, y mae rhai swyddogion yn ei ddisgrifio fel ymdriniaeth "ddymunol". Mae'n rhaid hyrwyddo hyn fel amlygiad o Egwyddorion Peelian[24] ar waith.

Ar ôl dweud hynny, nid yw'r adrodd ar hyn o bryd yn cynnig dadansoddiad cywir o ba mor aml y mae grym yn cael ei ddefnyddio. Mae'r tan-adrodd gan swyddogion yn golygu ei bod hi'n anodd dod i gasgliadau i gefnogi nodau ac amcanion yr adolygiad.

Mae angen gwaith pellach i alluogi i'r Heddlu gasglu, coladu a dadansoddi data yn gywir yn ymwneud â defnydd o rym a sicrhau bod tystiolaeth gyfatebol wedi'i gysylltu yn briodol.

Yng ngoleuni hyn, mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i fonitro cynnydd y Prif Gwnstabl yn erbyn yr argymhellion a amlinellir o fewn yr adroddiad hwn trwy

[24] Amlinellir yn y 'Cyfarwyddiadau Cyffredinol' a roddwyd i bob swyddog heddlu newydd o 1829, maen nhw'n datgan bod "cydweithrediad y cyhoedd… yn gostwng yn gymesur ar yr angen i ddefnyddio grym corfforol…." a "defnyddio grym corfforol dim ond pan fydd defnydd ar berswâd, cyngor a rhybudd wedi'i brofi'n annigonol…"

adolygiadau misol o gynnydd, a bydd yn sicrhau bod ei Banel Sicrwydd Ansawdd yn cynnal samplau ar hap pellach o ffilm defnydd o rym gyda'r nod o gynnig sicrwydd cynyddol i'r cyhoedd.

Mae trefniadau eisoes yn cael eu gwneud i'r Heddlu ac i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gynnal ymgysylltiad ar y cyd gyda'r cyhoedd i sicrhau eu bod yn deall pwerau'r heddlu yn ymwneud â defnydd o rym a'u hawliau mewn perthynas â'r rhain.

Rhagwelir yn y dyfodol agos y bydd swyddogion Heddlu Dyfed-Powys yn adrodd ac yn cofnodi pob defnydd o rym a bydd yn cael ei archwilio yn ei dro gan oruchwylwyr a'i samplu ar hap yn rheolaidd gan Banel y Comisiynydd. Yna dylai'r data canlyniadol gael ei ddadansoddi a'i gyhoeddi mewn ffordd y gall aelodau'r cyhoedd ddeall yn glir pa ddulliau grym a ddefnyddir, pa mor aml ac ar bwy; er mwyn iddynt allu gwneud eu dyfarniadau eu hunain ar eu hyder y bydd eu gwasanaeth yn eu trin yn rhesymol, yn gymesur ac yn gyfiawn.

# Atodiad A – Amserlen Craffu Dwys

| **Thema** | Defnydd o Rym |
|---|---|

**Rhesymeg**

Newidiadau i reolau defnydd o rym yr heddlu, pryderon dros graffu annibynnol ar Stopio a Chwilio, adroddiadau o anfodlonrwydd yn ymwneud ag anaf wrth arestio a chynllun tryloywder newydd NPCC yn gofyn i ystadegau defnydd o rym gael eu cyhoeddi.

**Canlyniadau Bwriadol**

1. Rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio eu pwerau grym yn briodol
2. Gwella hyder y cyhoedd yn Heddlu Dyfed-Powys
3. Gwella perfformiad yn y maes hwn (IOPC)

**Amcanion Dynodedig**

a) Adnabod yn gyflym unrhyw dueddiadau o ran defnydd o rym gan swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys
b) Tynnu sylw at feysydd arfer da a meysydd i'w gwella
c) Darparu goruchwyliaeth annibynnol ar ddefnydd o rym yr heddlu a sicrwydd bod Heddlu Dyfed-Powys yn ei fonitro
d) Ceisio sicrwydd bod swyddogion yn cofnodi holl ddigwyddiadau defnydd o rym yn briodol
e) Hysbysu'r cyhoedd am eu hawliau o ran defnydd o rym gan swyddogion heddlu

**Cwmpas / Camau**

1. Sefydlu dealltwriaeth a theimladau y cyhoedd yn ymwneud â defnydd o rym yr Heddlu trwy ymgynghori mewn sioeau haf.
2. Ymgynghori gyda grwpiau cymunedol amrywiol i ddeall eu canfyddiadau o'r pwnc trwy grwpiau ffocws.
3. Ymgynghori gyda gwasanaethau a gomisiynwyd i ddeall unrhyw faterion defnydd o rym sy'n cael eu codi gan eu defnyddwyr.
4. Sicrhau adborth gan Iechyd Galwedigaethol parthed materion lles gweithwyr yn ymwneud â defnydd o rym.
5. Adolygu cofnodion defnydd o rym yr Heddlu (ffurflenni a Ffilm Camera Corff) trwy Panel Sicrwydd Ansawdd.
6. Adolygu unrhyw oblygiadau ystadau yn ymwneud â'r mater e.e. lle yn y ddalfa / storio cyfarpar ayyb.
7. Cynnwys cwestiwn i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a Lles Anifeiliaid i'w drafod gyda charcharorion.

8. Codi'r mater gyda'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i sefydlu unrhyw ystyriaethau amrywiaeth.
9. Adolygu data cwynion i adnabod unrhyw dueddiadau / achosion a gefnogwyd / honiadau cyfreitha ayyb
10. Coladu costau o'r holl wariant prosiect yn ymwneud â defnydd o rym perthnasol e.e. Ffilm Camera Corff, Taser, cwcwll poeri, atalfeydd ayyb
11. Dadansoddi defnydd o rym amhriodol hanesyddol (ymchwiliadau i gwynion / digwyddiadau fu bron a digwydd ayyb) i ddeall lleoliad, gwraidd yr achos a sut y mae hyn yn siapio digwyddiadau yn y dyfodol e.e. cudd-wybodaeth fod gan yr unigolyn dan amheuaeth hanes o wrthod / grym yn cael ei ddefnyddio ayyb?
12. Trafod gyda IID i ddeall cydymffurfiad gyda pholisi actifadu Ffilm Camera Corff h.y. a yw'n cael ei actifadu yn ôl yr angen?
13. Adolygu elfen Defnydd o Rym y Datganiad Rheoli Grym.
14. Cynnal grwpiau ffocws mewnol – un ar gyfer Iechyd a Diogelwch, hyfforddiant, PSD, adrannau cyfreithiol ac unrhyw adrannau eraill sydd â chysylltiad â Defnydd o Rym ac un arall ar gyfer swyddogion a staff gweithredol i ddeall eu barnau a'u profiadau.

| **Graddfeydd Amser** | |
|---|---|
| **PICK** | 07/06/18 |
| **Adolygiad bwrdd gwaith** | 22/06/18 |
| **SAND** | 29/06/18 |
| **Gwaith maes** | 31/08/18 |
| **Adroddiad drafft i Bwyllgor Gweithredol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** | 19/09/18 |
| **Adroddiad terfynol i'r Bwrdd Plismona** | 09/10/18 |
| **Adroddiad cyhoeddus i'r Panel Heddlu a Throseddu** | 16/11/18 |
| **Adolygiad dilynol** | Rhagfyr 2018 |

# Adroddiad B – Enghraifft o e-Ffurflen Defnydd o Rym

**Manylion Staff**

| | |
|---|---|
| **Cyfenw Swyddog** | *Holmes* |
| **Enw cyntaf Swyddog** | *Sherlock* |
| **Rhif gweithiwr** | *80000* |
| **Rheng** | *Cwnstabl* |
| **Ditectif** | *NA* |
| **Rhyw** | *Gwryw* |
| **Dyddiad Geni** | *1970-01-01T00:00:00.000+01:00* |
| **Oed** | *48* |
| **Dyddiad cychwyn gwasanaeth y swyddog** | *2000-01-01T00:00:00.000Z* |
| **Hyd y gwasanaeth** | *Mwy na 15 mlynedd* |
| **Dyddiad cychwyn hyfforddiant diogelwch swyddog** | *2017-01-01T00:00:00.000Z* |
| **Faint sydd ers cynnal hyfforddiant diogelwch personol** | *13-23 mis* |
| **Ym mha ardal yr ydych chi wedi'ch lleoli ar hyn o bryd?** | *Sir Gaerfyrddin* |

**Nodweddion Lefel Digwyddiad**

| | |
|---|---|
| **Rhif dalfa ar gael** | *Oes* |
| **Rhif dalfa** | *CH-000000-2018* |
| **Lleoliad y digwyddiad** | *Stryd / Priffordd, Safle Trwyddedig, Cerbyd heddlu* |
| **Ym mha ardal y cynhaliwyd y defnydd o rym hwn?** | *Sir Gaerfyrddin* |
| **Ymddygiad cyntaf y gwrthrych /** | *Gwrthsafiad goddefol* |
| **A wnaeth y gwrthrych ymosod arnoch chi?** | *Do* |
| **A ymosodwyd arnoch chi gan ddefnyddio arf?** | *Arf / gwrthrych â llafn* |

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

| | |
|---|---|
| **A gawsoch chi eich bygwth gan ddefnyddio arf?** | *Na – ond roedd gwybodaeth neu gudd-wybodaeth yn nodi y gallai arf fod yn bresennol* |
| **A wnaeth y gwrthrych boeri arnoch chi?** | *Do* |
| **Ffactorau effaith** | *Alcohol, Cyffuriau* |
| **Rheswm dros ddefnyddio grym** | *Amddiffyn hun, Amddiffyn y cyhoedd, Amddiffyn y gwrthrych* |
| **Pa brif ddyletswydd yr oeddech chi'n ei gynnal adeg y digwyddiad?** | *Patrôl symudol* |
| **A oeddech chi ar eich pen eich hun adeg y digwyddiad lle bu'n rhaid i chi ddefnyddio grym?** | *Oeddwn* |
| **A ydych chi'n swyddog Taser wedi'i hyfforddi'n arbennig?** | *Ydw* |
| **A oeddech chi'n cario Taser adeg y digwyddiad?** | *Oeddwn* |
| **A oedd Taser ar gael yn y lleoliad?** | *Oedd* |
| **Tactegau** | **Tacteg**: *Gefynnau Llaw*<br>**Arf Tanio**: *Na*<br>**Map Corff**: *Na*<br>**Taser**: *Na*<br>**Tacteg effeithiol**: *Na*<br>**Trefn tacteg**: *1af*<br>**Ufudd**: *Anufudd* |
| **Tactegau** | **Tacteg**: *Sgiliau di-arf (gan gynnwys gwasgbwynt, ergydion, atalfeydd a llorio pobl)*<br>**Arf Tanio**: *Na*<br>**Map Corff**: *Na*<br>**Taser**: *Na*<br>**Tacteg effeithiol**: *Na*<br>**Trefn tacteg**: *2il*<br>**Ufudd**: |

| | | |
|---|---|---|
| **Tactegau** | **Tacteg** | *Chwistrell - Llidiog* |
| | **Arf tanio** | *PAVA wedi'i dynnu* |
| | **Map Corff** | *Na* |
| | **Taser** | *Na* |
| | **Tacteg effeithiol** | *Na* |
| | **Trefn tacteg** | *Oedd* |
| **Gorchymyn wedi'i ddilysu** | *Do* | |
| **Gorchymyn arall wedi'i ddilysu** | *Do* | |

**Anafiadau Swyddog**

| | |
|---|---|
| **A wnaethoch chi ddioddef anaf corfforol yn ystod y digwyddiad hwn?** | *Do* |
| **A gredwch chi fod yr anaf wedi'i achosi yn uniongyrchol gan y gwrthrych yn ceisio ymosod arnoch chi'n FWRIADOL?** | *Do* |
| **Manylion yr anaf** | *Mân* |
| **A ddarparwyd cymorth meddygol?** | *Do* |

**Manylion y Gwrthrych**

| | | |
|---|---|---|
| **Manylion y person yn hysbys?** | *Ydy* | |
| **Teitl** | *Mr* | |
| **Enwau Cyntaf** | *Joe* | |
| **Cyfenw** | *Bloggs* | |
| **Enwau ychwanegol?** | *Na* | |
| **Cyfeiriad** | **Rhif y tŷ** | *18* |
| | **Llinell cyfeiriad 1** | *Stryd Uchaf* |
| | **Tref** | *Aberystwyth* |
| | **Sir** | *Sir Gaerfyrddin* |
| | **Cod Post** | *SA12 3RE* |
| | **Gwlad** | *Deyrnas Unedig* |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad geni yn hysbys?** | *Ydy* |
| **Dyddiad Geni** | *01-01-1990* |
| **Oed** | *28* |
| **Rhyw** | *Gwryw* |
| **Ethnigrwydd yn ôl y swyddog** | *Gwyn – Gogledd Ewrop* |
| **Ethnigrwydd yn ôl yr unigolyn** | *W1 Gwyn - Prydeinig* |
| **A oes marciau/creithiau ayyb** | *Oes* |
| **Marciau / creithiau** | **Math**<br>**Dosbarthiad**<br>**Lleoliad**<br>**Nodiadau** |
| **Dewis Iaith** | *Saesneg* |
| **Manylion ychwanegol** | **A oes gan y gwrthrych anabledd corfforol ? (barn y swyddog)** *Na*<br>**A oes gan y gwrthrych faterion iechyd meddwl? (ym marn y swyddog)** *Oes* |

### Anafiadau'r Gwrthrych

| | |
|---|---|
| **Hyd eithaf eich gwybodaeth ac adeg llenwi'r ffurflen hon, a dderbyniodd y gwrthrych anafiadau o ganlyniad i'ch defnydd o rym?** | *Do* |
| **Hyd eithaf eich gwybodaeth ac adeg llenwi'r ffurflen hon, pa lefel o anaf a dderbyniodd y gwrthrych o'r digwyddiad hwn, sy'n benodol berthnasol i'ch defnydd o rym?** | *Mân* |
| **A gynigiwyd cymorth meddygol?** | *Do* |
| **A ddarparwyd cymorth meddygol?** | *Do* |
| **Beth ddigwyddodd ar ôl hynny i'r gwrthrych (dewiswch bob un sy'n berthnasol)?** | *Arestio* |

### Lleoliad

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad** | *Tu allan i Tesco Caerfyrddin* |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad** | **Enw tŷ** | *Tesco* |
| | **Llinell Cyfeiriad 1** | *Stryd Fawr* |
| | **Tref** | *Aberystwyth* |
| | **Sir** | *Sir Gaerfyrddin* |
| | **Cod Post** | *Anhysbys* |
| **Cyfeirnod grid** | *242981,219457* | |

**Lluniau**

| | |
|---|---|
| **Cynnwys Llun(iau)** | *Ydw* |
| **Llun wedi'i dynnu y tu allan i'r ffurflen hon?** | *Na* |

**Manylion Storm**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad Storm** | *DP-20180816-001* | |
| **Olddodiad Storm** | *001* | |
| **Dyddiad Storm** | *16-08-2018* | |
| **Swyddog** | **Cyfenw** | *Holmes* |
| | **Enw Cyntaf** | *Sherlock* |
| | **Rhif coler** | *00* |
| | **Rheng** | *PS* |
| | **Ardal** | |
| **Ffilm Camera Corff yn Weithredol** | *Oedd* | |

**Llenwi ffurflen**

| | |
|---|---|
| **Wedi'i llenwi?** | *Do* |
| **Dyddiad/amser llenwi** | *16-08-2018 15:28* |

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# Atodiad C – Safonau Proffesiynol – Canlyniadau Honiad o Gŵyn

| | Datgymhwysiad – gan yr Heddlu | Gollyngwyd – gan yr Heddlu | Datrysiad Lleol - gan Ranbarth | Heb ei Gynnal - gan Ranbarth | Heb ei Gynnal - gan PSD | Gofynion Arbennig / Dim achos i'w ateb | Wedi'i dynnu yn ôl – gan yr Heddlu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2017** | | | | | | | | |
| Meh | | | 1 | 2 | 1 | | | 4 |
| Gorff | | 1 | 1 | 1 | 1 | | 1 | 5 |
| Awst | | | | | 2 | | 1 | 3 |
| Medi | 1 | 1 | | 1 | | | 1 | 4 |
| Hyd | | | | | | | 1 | 1 |
| Tach | | | | 2 | | 1 | | 3 |
| Rhag | | | | | 1 | | | 1 |
| **2018** | | | | | | | | |
| Ion | | | | | 2 | | | 2 |
| Chwe | | | | | 1 | | | 1 |
| Maw | | | | 1 | 2 | | | 3 |
| Ebr | | | 1 | | | | | 1 |
| Mai | 1 | 1 | | 1 | 1 | | | 4 |
| Meh | | 1 | | 3 | 2 | | 1 | 7 |
| Gorff | | | | | | | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **2** | **4** | **3** | **11** | **13** | **1** | **6** | **40** |